# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Mawrth 2014

Bethan Jenkins AC



## Cynnwys


**Rhagair** ........ 1
**Crynodeb o'm cynigion** ........ 3
**Y cynigion sy'n ymwneud ag addysg ariannol** ........ 6
Cefndir ........ 6
*Fy nghynigion i* ........ 11
**Cynigion yn ymwneud â swyddogaethau awdurdodau lleol** ........ 15
*Cefndir* ........ 15
*Fy nghynigion i* ........ 17
**Goblygiadau ariannol a sylwadau eraill** ........ 21
**Sut i ymateb** ........ 23
**Y camau nesaf** ........ 23
**Rhestr o'r holl gwestiynau ymgynghori** ........ 24

## Rhagair

Ar 16 Hydref 2013, pleidleisiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ganiatáu imi gyflwyno Bil gerbron y Cynulliad a fyddai'n **hyrwyddo llythrennedd ariannol** ymhlith pobl Cymru. Mae rheolau'r Cynulliad yn golygu bod yn rhaid imi gyflwyno'r Bil erbyn 15 Gorffennaf 2014. Ar ôl hynny, bydd proses graffu drylwyr yn mynd rhagddi yn y Cynulliad, gyda chyfle i unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau wneud hynny.

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw holi barn pawb sydd â diddordeb yn y maes er mwyn fy helpu i lunio cynnwys y Bil arfaethedig. Byddai'r Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) yn ceisio sicrhau bod pobl Cymru'n fwy llewyrchus eu byd, a hynny drwy wella'u haddysg a'u llythrennedd ariannol. Yn fras, gellir rhannu fy nghynigion i ddau gategori gwahanol:

- Gwella gallu ariannol plant oedran ysgol a phobl ifanc drwy ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i addysg ariannol gael ei chynnwys yn rhan o gwricwlwm ysgolion;
- Cryfhau'r rôl sydd gan awdurdodau lleol wrth helpu pobl i osgoi trafferthion ariannol, a hynny drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau fabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol. Nod y strategaeth hon fydd hyrwyddo llythrennedd ariannol a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynhwysiant ariannol.

Bwriadaf hefyd gyflwyno darpariaethau eraill yn y Bil yn ymwneud â defnyddio'r rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus; addysg ariannol plant sy'n derbyn gofal; a'r modd y caiff pobl eu cyfeirio at wybodaeth am reoli arian.

Diben deddfu yn y maes hwn fydd mynd i'r afael â sefyllfa lle mae llawer o bobl yng Nghymru yn wynebu trafferthion ariannol cynyddol. Credaf nad oes gan lawer ohonynt y wybodaeth na'r sgiliau i reoli a thrin arian, ac yn y cyfnod economaidd ariannol hwn, maent yn troi at fenthyciadau llog uchel, anghynaliadwy fel modd o geisio datrys eu problemau ariannol.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai cryn gefnogaeth i'm cynigion. Mae llawer yn gytûn bod angen rhagor o gymorth ar bobl yng Nghymru i fod yn llythrennog yn ariannol ac i wneud y dewisiadau cywir yn eu hamgylchiadau. Fodd bynnag, rwy'n eiddgar i glywed barn pobl am fy syniadau cyn i'r Bil gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad a dechrau ar ei daith drwy'r broses graffu.

Nod yr ymgynghoriad hwn felly yw gwahodd sylwadau gennych am fy nghynigion. Gallai hyn gynnwys tynnu sylw at bethau sy'n eich pryderu, rhoi sylwadau am elfennau penodol, amlygu goblygiadau ariannol ac, yn gyffredinol, fy helpu i sicrhau y bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn addas i'w diben maes o law.

Mae gweddill y ddogfen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth gefndir ac yn gofyn nifer o gwestiynau a allai fod yn ddefnyddiol wrth i chi lunio'ch ymatebion. Er mwyn eglurder, rhestrir y cwestiynau eto ar ddiwedd y ddogfen, ynghyd â gwybodaeth am sut i ymateb. Edrychaf ymlaen at dderbyn unrhyw sylwadau y dymunwch eu gwneud erbyn 28 Ebrill 2014.

Diolch am eich amser ac am ddangos diddordeb yn y mater pwysig hwn.

**Bethan Jenkins**

**Mawrth 2014**

## Crynodeb o'm cynigion

Fel gweddill y Deyrnas Unedig, mae Cymru'n dal i ddioddef yn sgil y sefyllfa economaidd sydd ohoni. Mae cyflogau isel ac arferion gwaith anwadal (er enghraifft, o ganlyniad i gontractau dim oriau, swyddi'n diflannu a chwmnïau'n cau) yn gwneud y sefyllfa honno'n waeth. Mae pobl yng Nghymru yn wynebu dewisiadau ariannol anodd yn ddyddiol.

Yn y cyd-destun hwn, mae ystadegau brawychus ar gymhwysedd ariannol wedi dod i'r fei dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft:

- Roedd 70% o bobl 18-24 oed a arolygwyd yn 2008 mewn dyled (YouGov);
- Pobl yn eu hugeiniau yw'r rheini sy'n ei chael hi'n fwyaf anodd cael dau ben llinyn ynghyd, dewis cynnyrch ariannol a chynllunio at y dyfodol (yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol);
- Nid yw 43% o rieni'n gwybod ystyr termau ariannol sylfaenol fel APR neu PPI;
- Mae diffyg addysg ariannol yn costio bron i £250 miliwn mewn ffioedd a chosbau yn unig, yn ôl yr adroddiad Debt Facts and Figures gan Credit Action yn 2011, gyda bron i chwarter y boblogaeth (24%) wedi gorfod talu ffioedd am nad ydynt yn deall telerau ac amodau cynnyrch ariannol;
- Roedd gan 84% o'r rheini a geisiodd gyngor gan Cyngor ar Bopeth Cymru rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2013 broblemau o ran eu gallu i drin arian. Mae 74% yn dal i gael cymorth gyda hyn;
- Mae Cyngor ar Bopeth Cymru wedi gweld nifer y bobl sy'n cael trafferthion gyda benthycwyr diwrnod cyflog yn cynyddu bumplyg ers 2012;
- Yn 2012, roedd 4% o oedolion Cymru (93,808) wedi cael benthyciad diwrnod cyflog – o'i gymharu â dim o gwbl yn 2007. O blith y rhain, pobl ifanc oedd 11% ohonynt (10,319).

Mae rhai o oblygiadau hyn yn dod i'r amlwg yn adroddiad y Gwasanaeth Cynghori Ariannol: *Galluogrwydd Ariannol y DU* (Tachwedd 2013). Yn ôl yr adroddiad hwnnw:

- Roedd cyfran y bobl yn y DU a oedd yn brwydro i dalu biliau ac ymrwymiadau credyd wedi codi o 35% yn 2006 i 51% yn 2013;
- Roedd 35% o bobl wedi cael sioc wrth drin materion ariannol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf;

- Roedd 23% o bobl wedi profi gostyngiad mawr yn eu hincwm yn ystod y tair blynedd ddiwethaf;
- Byddai'n rhaid i 40% o bobl bendroni sut i dalu bil annisgwyl o £300;
- Roedd gan 5 miliwn yn llai o bobl arian wedi'i gynilo wrth gefn ar gyfer dyddiau duon yn 2013 o'i gymharu â 2006 (238,000 o bobl yng Nghymru, yn ôl cyfran y boblogaeth);
- Yn y chwe mis diwethaf, roedd 12% o bobl (neu tua 398,000 o bobl yng Nghymru, yn ôl cyfran y boblogaeth) wedi methu â thalu benthyciad, cytundeb credyd neu daliad morgais, neu wedi mynd dros gyfyngiad eu gorddrafft;
- Yn y flwyddyn a aeth heibio, roedd 40% o bobl (1.2 miliwn o bobl Cymru, yn ôl cyfran y boblogaeth) wedi defnyddio cerdyn credyd neu gerdyn siop i dalu gan nad oedd ganddynt arian ar y pryd.

Rwy'n ymwybodol, wrth gwrs, i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn 2009, ac i hon gael ei hadolygu yn 2011 gan arwain at Strategaeth Cynhwysiant Ariannol - Blaenoriaethau 2011-13. Diben y strategaeth oedd nodi'r gwaith y mae angen i Lywodraeth Cymru, ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, ei wneud i roi sylw i'r problemau sy'n gysylltiedig ag allgáu ariannol.

Dywedodd Llywodraeth Cymru mai nod cyffredinol y strategaeth oedd hwyluso ymateb cyd-asiantaethol i gynhwysiant ariannol. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r gwaith sy'n dal i fynd rhagddo yn y maes hwn, er enghraifft drwy'r Grŵp Cyflawni Cynhwysiant Ariannol. Er gwaethaf hyn, rwy'n credu bod angen gwneud mwy. Yn fy marn i, gellid cryfhau'r gweithredu o amgylch cynhwysiant ariannol yng Nghymru drwy wneud deddfwriaeth ynghylch y modd y darperir addysg ariannol; ac o ran sut y mae awdurdodau lleol yn cyfrannu at hyrwyddo llythrennedd ariannol yn eu hardaloedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno addysg ariannol mewn ysgolion drwy fathemateg, addysg bersonol a chymdeithasol, a thrwy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fy haeriad i yw y byddai'r ddarpariaeth hon yn annigonol pe bai'r sefyllfa ariannol yn un lewyrchus, heb sôn am yn y sefyllfa sydd ohoni. Oherwydd hyn, **byddai'r Bil arfaethedig yn deddfu ym maes addysg ariannol, gan gryfhau lle'r addysg honno yn y system addysg drwyddi draw. Byddai'n sicrhau bod sefydliadau addysgol yn gallu rhoi cymorth i fyfyrwyr, ac yn gofalu bod gan bobl ifanc well dealltwriaeth o bethau fel cyfraddau llog, sut i reoli arian, a'r risg sydd ynghlwm wrth gael dyledion anghynaliadwy.**

Ar yr un pryd, mae nifer o awdurdodau lleol wedi'i chael hi'n amhosibl ymateb i dwf y siopau benthyciadau diwrnod cyflog a galwadau diwahoddiad twyllodrus. Mae'r rhain yn aml yn ffynnu mewn ardaloedd tlawd, lle mae tystiolaeth gref i ddangos bod gallu pobl i drin arian yn wael. Er bod llawer o awdurdodau lleol yn cyfrannu'n sylweddol at yr agenda cynhwysiant ariannol, credaf fod angen cryfhau eu rôl yn hyn o beth. Byddai poblogaeth a chanddi well gafael ar lythrennedd ariannol yn boblogaeth iachach ym mhob ystyr y gair, a gallai rhoi rôl ganolog i awdurdodau lleol o ran hyrwyddo cynhwysiant ariannol a llythrennedd ariannol fod yn gam ataliol, cadarnhaol y gallwn ei gymryd er budd ein cymdeithas drwyddi draw. Oherwydd hyn, **byddai'r Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi strategaeth ar gynhwysiant ariannol. Byddai gofyn i'r strategaeth hon ddangos yn glir pa gamau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo cynhwysiant ariannol a llythrennedd ariannol pobl yr ardal.**

At hynny, bwriadaf i'r Bil gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â **gwahardd llyfrgelloedd cyhoeddus rhag codi tâl ar bobl am ddefnyddio'r rhyngrwyd; addysg ariannol plant sy'n derbyn gofal**; a'r modd y mae **awdurdodau lleol, prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn cyfeirio unigolion at wybodaeth am reoli arian.**

Mae gweddill y ddogfen hon yn rhoi rhagor o fanylion am y cynigion hyn, ynghyd â chwestiynau ymgynghori sy'n eich gwahodd i ymateb iddynt.

## Y cynigion sy'n ymwneud ag addysg ariannol

### *Cefndir*

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ysgolion ddilyn y cwricwlwm sylfaenol, er nad oes unrhyw ofyniad o ran sut y mae disgwyl iddynt gyflawni hyn. Mae adran 101 o *Ddeddf Addysg 2002*, fel y'i diwygiwyd, yn rhestru gofynion y cwricwlwm sylfaenol yng Nghymru.

Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng y cwricwlwm sylfaenol a'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys gorchmynion pwnc a rhaglenni astudio ar gyfer pynciau craidd (gorfodol) a phynciau sylfaen, ac mae gofyn i ysgolion ddilyn y rhain wrth addysgu'r pynciau hynny. Fy nghynnig i yw bod addysg ariannol yn cael ei hychwanegu at y cwricwlwm sylfaenol yng Nghymru o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen (oed 7+).

Mae addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac addysg gysylltiedig â gwaith yn rhannau statudol o'r cwricwlwm sylfaenol yng Nghymru. Fodd bynnag, yn wahanol i bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, mae modd i ysgolion ddewis drostynt eu hunain sut i ddarparu'r pynciau hynny a beth sy'n rhan o'r addysg. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fframweithiau ar gyfer ABCh ac addysg gysylltiedig â gwaith (Gyrfaoedd a'r byd gwaith). Mae'r rhain yn rhoi canllawiau pwysig i ysgolion ac mae disgwyl iddynt gael eu dilyn. Fodd bynnag, fframweithiau anstatudol ydynt, sy'n golygu nad oes rheidrwydd ar ysgolion i ddilyn eu cynnwys.

Byddai'r Bil arfaethedig yn rhoi i addysg ariannol statws cyfreithiol tebyg i ABCh ac addysg gysylltiedig â gwaith; hynny yw, byddai'n orfodol i ysgolion ddarparu'r addysg honno ond byddai ganddynt hyblygrwydd i benderfynu sut i wneud hynny.

Wrth gwrs, mae elfennau o addysg ariannol sydd eisoes yn rhan o ofynion y cwricwlwm. Ar hyn o bryd, mae addysg ariannol a defnyddio arian wedi'u cynnwys o fewn cwricwlwm cenedlaethol mathemateg, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd statudol, a'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol anstatudol. Mae Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru (sy'n anstatudol) yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud ag entrepreneuriaeth ond nid gallu ariannol.

Fodd bynnag, nid oes gofyniad cyffredinol i ddarparu 'addysg ariannol' a dyma ble credaf y mae angen tro ar fyd. Mae fy nghynigion wedi cael eu llunio yng nghyd-destun y ddarpariaeth bresennol ar gyfer addysg ariannol a'r camau y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i'w cymryd. Y bwriad yw y bydd 'addysg ariannol' yn cael ei chyflwyno drwy gyfuniad o gamau newydd, a thrwy gryfhau'r hyn sydd eisoes yn ei le. Wrth

lunio fy nghynigion, rwyf hefyd wedi cadw mewn cof yr adolygiad y mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ei gynnal o'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm ac asesu.

Mae'r cwricwlwm mathemateg yn cynnwys deall a defnyddio arian ym mhob Cyfnod Allweddol. Er enghraifft, yng Nghyfnod Allweddol 4, rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion wneud y canlynol:

> Cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, cynilo a gwario, gan gynnwys cyfraddau cyfnewid arian cyfred, elw a cholled, disgownt, hurbwrcas, y bargeinion gorau, biliau tŷ a llog cyfansawdd.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, bydd dysgwyr 'yn cyfnerthu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ... gan eu galluogi i ddatrys problemau mewn cyd-destunau amrywiol ... yn enwedig rheoli cyllid personol'. Fodd bynnag, ni ddywedir sut y dylid cyflawni hyn.

Mae darparu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ofyniad statudol ar ysgolion yng Nghymru ers mis Medi 2013. Nodir nifer o ddisgwyliadau ar gyfer galluoedd dysgwyr ym mhob blwyddyn o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 9. O fis Medi 2014, bydd angen i athrawon asesu disgyblion yn erbyn y disgwyliadau hyn yn flynyddol.

Un rhan o'r cydrannau rhifedd o fewn y Fframwaith yw defnyddio sgiliau rhif, ac o fewn hyn ceir elfen ar reoli arian. Erbyn diwedd Blwyddyn 9, mae disgwyl i ddisgyblion ddeall y risgiau sydd ynghlwm wrth wahanol ffyrdd o gynilo a buddsoddi, yn ogystal â deall pwysigrwydd yswiriant.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno ail gymhwyster TGAU newydd mewn mathemateg, yn ymwneud â rhifedd, ym mis Medi 2015. Mae hyn yn rhan o'r gwaith, yn dilyn yr Adolygiad o Gymwysterau 14-19 a gynhaliwyd gan Huw Evans, i ddiwygio'r TGAU mathemateg presennol i un sydd hefyd yn cynnwys 'technegau mathemategol'. Mae newidiadau tebyg ar y gweill i'r cymwysterau TGAU Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf, er mwyn rhoi rhagor o bwyslais ar lythrennedd. Bydd y TGAU rhifedd wedi'i gynllunio i adeiladu ar y gallu mewn rhifedd a ddisgwylir o dan y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, tra bo Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd y TGAU newydd hefyd yn cynnwys llythrennedd ariannol.

Mae'r Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed (sy'n anstatudol) yn amlinellu'r cyfleoedd penodol y dylid eu rhoi i ddisgyblion ym mhob Cyfnod Allweddol ac mewn addysg ôl-16. Yn gyffredinol, mae'r fframwaith hwn yn datgan, wrth baratoi ar gyfer dysgu gydol oes:

> Mae angen i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o rôl a phwysigrwydd arian hefyd. Mae angen cymorth arnynt i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau fel defnyddwyr, a chymorth i feithrin gallu ariannol a fydd yn eu galluogi i ffurfio barn effeithiol a gwneud penderfyniadau effeithiol mewn perthynas â materion economaidd.

Yn ei adroddiad yn 2010 ar Gynhwysiant Ariannol ac effaith Addysg Ariannol, argymhellodd Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol:

> bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y ddarpariaeth addysg ariannol yn elfen orfodol o'r fframwaith ABCh, a'i bod yn adolygu'r pwyslais a roddir ar addysg ariannol yn rheolaidd.

Gan dderbyn yr argymhelliad mewn egwyddor, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at y cyfrifoldeb statudol presennol i gyflwyno ABCh ac at y ffaith bod addysg ariannol eisoes yn rhan o'r fframwaith ABCh (er nad oes gofyniad cyfreithiol ar ysgolion i ddilyn y canllawiau perthnasol). Ychwanegodd Llywodraeth Cymru bod ABCh, fel pob agwedd ar y cwricwlwm ysgolion, yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnal **adolygiad o'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm ac asesu,** a hynny mewn dwy ran. Roedd y cynigion yn y rhan gyntaf, a fu'n destun ymgynghoriad ddiwedd 2013, yn ymwneud â sut y dylid diweddaru'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm ac asesu i gyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd, gan gynnwys adolygu'r rhaglenni astudio ar gyfer mathemateg ym mhob un o'r Cyfnodau Allweddol. Rhagwelir y bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno ar sail anstatudol ym mis Medi 2014, ac yna'n dod yn statudol o flwyddyn academaidd 2015/16. Bydd ail ran yr adolygiad yn canolbwyntio ar siâp y cwricwlwm ac ar ddatblygu Cwricwlwm Cymreig unigryw. Mae'n fwriad hefyd i gyflwyno fframwaith 'sgiliau ehangach' statudol, i ddisodli'r fframwaith sgiliau anstatudol presennol, er nad yw'n glir sut, os o gwbl, y bydd llythrennedd ariannol yn rhan o hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y caiff pwysigrwydd llythrennedd ariannol o fewn y cwricwlwm ei ystyried yn ystod yr adolygiad o'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm ac asesu, er nad yw wedi rhoi rhagor o fanylion yn hyn o beth.

Mae gwybodaeth am y cyfleoedd i ddarparu addysg ariannol o fewn y cwricwlwm wedi'i dwyn ynghyd yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a cholegau, Addysg ariannol ar gyfer pobl ifanc rhwng 7 ac 19 oed yng Nghymru. Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn 2011, a nod y canllawiau yw helpu cyrff llywodraethu, uwch-dimau rheoli, ac ymarferwyr ac athrawon i gynllunio a darparu addysg ariannol.

Tan yn ddiweddar, roedd **Uned Addysg Ariannol Cymru**, a sefydlwyd yn 2008 o fewn Llywodraeth Cymru, yn rhoi cymorth penodol ar gyfer darparu addysg ariannol. Yn hyn o beth, roedd yr Uned yn gweithio gydag ymarferwyr mewn ysgolion ac awdurdodau lleol, ac mewn partneriaeth gyda chyrff addysg bellach, gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector.

Diddymwyd yr Uned ym mis Awst 2013, wrth i Lywodraeth Cymru ddatgan mai'r bwriad erioed oedd i'r rhaglen fod yn un am gyfnod penodol yn unig. Fodd bynnag, mae'r adnoddau a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd gan staff yr uned ar gael i ysgolion yng Nghymru, a thrwy gynnwys addysg ariannol yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, cred Llywodraeth Cymru fod ganddi ffordd gref iawn o sicrhau bod sgiliau o'r fath yn rhan o'r cwricwlwm craidd.[1]

Serch hynny, yn fy marn i, nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer addysg ariannol yn ein hysgolion yn ddigonol, ac mae angen eu cryfhau. Pwysleisiwyd hyn yn Materion Ariannol, sef adroddiad yn 2011 gan Estyn ar ddarpariaeth addysg ariannol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yn ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru. Ymhlith canfyddiadau Estyn oedd bod y rhan fwyaf o'r ysgolion wedi 'addasu eu cwricwlwm yn ddiweddar i gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg ariannol' ond mewn nifer o ysgolion uwchradd, bod addysg ariannol yn cael ei chyflwyno 'trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol yn bennaf'. Dywedodd yr adroddiad nad oedd y gwersi hyn 'yn ddigon ar eu pen eu hunain i wneud yn siŵr bod gan ddysgwyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o faterion ariannol neu'r medrau i wneud penderfyniadau ariannol cadarn pan fyddant yn hŷn'.

Wrth ymateb i Materion Ariannol, cydnabu Llywodraeth Cymru bod rhagor y gellid ei wneud i sicrhau bod addysg ariannol yn rhan ganolog o'r holl gwricwlwm ac y byddai'n ystyried canfyddiadau ac argymhellion Estyn er mwyn gwneud rhagor i gefnogi addysg ariannol mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth wedi datgelu mwy o fanylion am hyn.

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Cofnod y Trafodion [paragraff 184]*,16 Hydref 2013

Mae'r angen am ragor o addysg hefyd i'w gweld yng nghanlyniadau gwael Cymru ym mhrofion PISA [2] 2012. Mae PISA yn profi disgyblion 15 oed mewn nifer o wledydd ar eu gallu i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau i heriau bywyd bob dydd. Mae llythrennedd ariannol yn enghraifft amlwg o'r modd y mae gwneud penderfyniadau ariannol anodd yn un o heriau bywyd go iawn. Gan y bydd arolwg nesaf PISA (2015) yn cynnwys prawf ar addysg ariannol, mae fy nghynigion yn fwy perthnasol fyth, ac fe fyddant yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru gyda'i hagenda i wella sgoriau PISA Cymru a safle Cymru ar y tabl.

Mae'n nodedig bod cynifer o wledydd wedi gwneud addysg ariannol bersonol yn rhan o'u cwricwlwm statudol, gan gynnwys Gweriniaeth Tsiec, Hwngari, India (dwy dalaith), Japan, Corea, Malaysia, Seland Newydd, Gwlad Pwyl, Sbaen a rhai o daleithiau'r Unol Daleithiau. Yn San Steffan, dywedodd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Addysg Ariannol ar gyfer Pobl Ifanc yn 2013:

> The evidence we have collected during this inquiry suggests that if personal finance education is not mandated, examined or inspected, schools will not teach it due to constraints on space and time in the curriculum. Accordingly, there was a general consensus that compulsion is the only way to ensure that schools find the time to teach personal finance education. If the UK is to compete internationally both in terms of educational standards and economic growth, our curriculum must develop the way it provides financial education so that the next generation does not fall behind.

Cytunaf yn llwyr â hyn. Tra bo'r trefniadau presennol ar gyfer addysg ariannol yn nwylo gweinidogion, credaf ei bod yn bryd rhoi sail iddynt yng Nghymru mewn deddfwriaeth sylfaenol. Byddai hyn yn rhoi statws sydd y tu hwnt i amheuaeth i addysg ariannol o fewn y cwricwlwm yng Nghymru ac yn sicrhau bod yr addysg hon yn cael ei darparu.

Cynigiaf hefyd y gallai'r Bil wneud darpariaeth ynghylch addysg ariannol plant sy'n derbyn gofal a'r modd y mae prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn cyfeirio unigolion at wybodaeth am reoli arian.

---

[2] Rhaglen sy'n cael ei rhedeg gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yw'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA). Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth gymharol rhwng gwledydd ar alluoedd disgyblion mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. I gael mwy o wybodaeth am ganlyniadau Cymru yn 2012, gweler gyhoeddiad Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad: ***PISA 2012***, Rhagfyr 2013.

*Fy nghynigion i*

**Ei gwneud yn ofynnol i addysg ariannol ddod yn rhan orfodol o'r cwricwlwm o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen, a hynny drwy ddiwygio adran 101 o *Ddeddf Addysg 2002* a rhoi i addysg ariannol statws tebyg i'r statws sydd gan addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) neu addysg gysylltiedig â gwaith. Yn sgil hyn, byddai'n ofyniad cyfreithiol i addysg ariannol fod yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol, gyda chanllawiau anstatudol ar gyfer sut y byddai ysgolion yn darparu'r addysg honno.**

Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r diffygion sy'n bodoli ar hyn o bryd lle gellir darparu elfennau o addysg ariannol mewn ysgolion yng Nghymru, er bod y modd y gwneir hynny yn dameidiog ac yn anwadal. Drwy ychwanegu addysg ariannol at y rhestr o'r hyn sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth, bydd modd sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael y cyfleoedd y mae eu hangen arnynt er mwyn dysgu sut i fod yn hyddysg mewn llythrennedd ariannol yn y byd go iawn.

Mae achos i ddadlau bod rhywfaint o addysg ariannol eisoes yn ofynnol mewn rhyw ffurf neu'i gilydd, er enghraifft drwy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, byddai newid adran 101 yn y fath fodd yn ffurfioli hyn ac yn ei gwneud yn gwbl glir bod yn rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol ddarparu addysg ariannol i'w disgyblion.

Dylai hefyd olygu bod fframwaith cydlynol a chyson ar gael ar gyfer darparu'r addysg hon. Drwy roi'r un statws cyfreithiol i addysg ariannol ag i ABCh neu addysg gysylltiedig â gwaith (Gyrfaoedd a'r byd gwaith), mae'n bosibl y gallai Llywodraeth Cymru benderfynu llunio fframwaith anstatudol i roi canllawiau i ysgolion ar sut i ddarparu'r addysg honno. Dylai hyn hefyd arwain at gryfhau'r sylw a roddir i sgiliau ariannol fel rhan o addysg plant a phobl ifanc yn ein hysgolion.

**Cwestiynau ymgynghori**

1. Beth yw eich barn am wneud addysg ariannol yn rhan statudol o'r cwricwlwm (o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen), yn debyg i addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac addysg gysylltiedig â gwaith?
2. I ba raddau y dylid rhoi mwy o sylw i addysg ariannol mewn ysgolion er mwyn paratoi pobl ifanc yn well at yr her o wneud penderfyniadau ariannol ar ôl gadael yr ysgol?
3. Ym mha ffyrdd, ac i ba raddau, y mae materion ariannol yn berthnasol i'r hyn y dylai pobl ifanc fod yn ei ddysgu yn yr ysgol?

**4.** Os daw addysg ariannol yn rhan statudol o'r cwricwlwm, a ddylid rhoi hyblygrwydd i ysgolion wrth iddynt ddilyn canllawiau ar sut i ddarparu'r addysg honno? (Byddai hyn yn debyg i'r modd y mae ABCh ac addysg gysylltiedig â gwaith yn cael eu haddysgu, ond yn wahanol i bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol.)

**Gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau addysg lleol i sicrhau bod addysg ariannol yn parhau'n rhan o ddatblygiad a gweithgarwch addysgol disgyblion a myfyrwyr trwy gydol eu cyfnod mewn addysg orfodol.**

Byddai'r ddyletswydd hon yn dilyn y newid arfaethedig yn y cwricwlwm a byddai'n golygu bod Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei darparu ar lawr gwlad. Y disgwyl yw y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn mewn ffordd debyg i'r modd y mae'n gofalu am rannau statudol presennol o'r cwricwlwm sylfaenol, fel ABCh, addysg gysylltiedig â gwaith, addysg rhyw, a' r cwricwlwm cenedlaethol. Er enghraifft, efallai y byddai swyddogaeth fan hyn i'r arolygiaeth, Estyn.

**Cwestiynau ymgynghori**

**5.** Beth yw eich barn am roi dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau addysg lleol i ddarparu addysg ariannol yn ystod addysg orfodol o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen?

**Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei haddysgu ar sail drawsgwricwlaidd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen, a'i gwneud yn ofynnol iddynt ystyried hyn wrth adolygu'r cwricwlwm.**

Byddai hyn yn golygu bod elfennau o addysg ariannol yn cael eu cynnwys mewn nifer o wersi, yn hytrach na'i fod yn cael ei weld fel ymarfer i 'dicio'r blychau' lle neilltuir rhywfaint o oriau'n unig ar gyfer dysgu am arian. Er enghraifft, gallai dosbarth Cymraeg ddysgu sut i ysgrifennu llythyr o gŵyn i gwmni cyfleustodau, tra gallai gwersi mathemateg ddysgu rhywun sut i gael y fargen orau ar gontract ffôn symudol a sut i dalu'r contract hwnnw.

Mae'n bwysig bod addysg ariannol yn cael ei hystyried pan fydd y cwricwla ar gyfer pynciau unigol yn cael eu hadolygu a'u diwygio. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod yr adolygiad sydd ar y gweill o'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm ac asesu yn rhoi sylw i lythrennedd ariannol. Byddai'r cynnig uchod yn sicrhau bod darpariaeth ar gyfer hynny wedi'i gosod mewn deddfwriaeth.

**Cwestiynau ymgynghori**

6. Beth yw eich barn am osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei darparu ar sail drawsgwricwlaidd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a'i gwneud yn ofynnol iddynt ystyried hyn fel rhan o unrhyw adolygiadau o'r cwricwlwm?

## Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori'n ffurfiol gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr perthnasol wrth ddatblygu cynnwys y cwricwlwm addysg ariannol.

Nod hyn fyddai sicrhau bod cynnwys y cwricwlwm mor berthnasol â phosibl i brofiadau ariannol yn y byd go iawn, gan ddiweddaru'r cwricwlwm hwnnw yn sgil datblygiadau yn y diwydiannau ariannol fel achosion o gam-werthu ac arferion benthyca newydd. Byddai'n gwneud synnwyr i Lywodraeth Cymru fanteisio ar yr arbenigedd perthnasol yn y meysydd hyn wrth ddatblygu ac adolygu cynnwys y cwricwlwm. O'r herwydd, byddai'n fuddiol cynnwys hyn yn y ddeddfwriaeth.

**Cwestiynau ymgynghori**

7. Beth yw eich barn am ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori'n ffurfiol â rhanddeiliaid ac arbenigwyr perthnasol wrth ddatblygu cynnwys y cwricwlwm addysg ariannol?
8. Gyda pha bobl a sefydliadau y dylid ymgynghori?

## Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r cynnydd sy'n cael ei wneud gydag addysg ariannol mewn ysgolion a gynhelir.

## Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad ar gyflwr addysg ariannol yn ysgolion Cymru.

Wrth i addysg ariannol mewn ysgolion yng Nghymru ddatblygu, credaf ei bod yn bwysig fod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r datblygiad a'r cynnydd hwn. Er enghraifft, daeth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, sy'n cynnwys nifer o agweddau perthnasol o dan yr adran ar reoli arian, i fodolaeth ym mlwyddyn academaidd 2013/14, a chaiff TGAU rhifedd newydd ei addysgu o fis Medi 2015. Bydd fy nghynigion yn ategu'r datblygiadau hyn a bydd angen monitro ac adolygu pa mor effeithiol yw hyn. Gallai hyn gynnwys perfformiad mewn cymwysterau perthnasol fel y TGAU rhifedd newydd.

Yn ymarferol, gallai Gweinidogion Cymru eu hunain wneud y gwaith monitro ac adolygu hwn, neu gallai fod yng ngofal yr arolygiaeth, Estyn, fel rhan o'i chylch o arolygiadau o ysgolion a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol. Fel arall, gallai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn adrodd yn benodol ar addysg ariannol, fel y gwnaeth gyda 'Materion Ariannol' yn 2011, neu ar sail flynyddol naill ai yn adroddiad blynyddol y prif arolygydd neu mewn adroddiad ar wahân.

**Cwestiynau ymgynghori**

**9.** Beth yw eich barn am roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu cynnydd addysg ariannol mewn ysgolion, ac i lunio adroddiad blynyddol ar hyn?

**10.** Beth yw eich barn am sut y dylai'r ddyletswydd hon gael ei chyflawni? Er enghraifft, a ddylai hyn fod yn rhan o waith Estyn wrth arolygu ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yng Nghymru?

**Ei gwneud yn ofynnol i brifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yng Nghymru ddarparu gwybodaeth yn nodi lle y gall myfyrwyr gael cyngor ynglŷn â rheoli arian. Bydd angen cydymffurfio â'r ddyletswydd hon yn benodol pan fydd myfyrwyr yn ceisio cymorth gan y sefydliad am ddyled neu reoli arian.**

Mae hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiadau gofal a lles sydd bellach gan sefydliadau addysg uwch a phellach mewn perthynas â'u myfyrwyr. Mae myfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch yn aml o dan bwysau'n ariannol, ac yn wynebu dewisiadau anodd ynghylch cyllidebu a thrafod arian. Gellid honni, er enghraifft, fod myfyrwyr ifanc sy'n byw oddi cartref am y tro cyntaf yn arbennig o agored i hyn, ac y byddent yn elwa'n fawr o gael cyngor a chefnogaeth o'r fath. Wrth ddeddfu yn y fath fodd, byddai angen i'r Bil roi ystyriaeth i ddeddfwriaeth ddiweddar[3] sydd wedi llacio rheolaeth lywodraethol Gweinidogion Cymru dros sefydliadau addysg uwch, gyda'r nod o roi dosbarthiad newydd i'r sector yng nghyd-destun gwaith y Swyddfa Ystadegol Gwladol.

[3] *Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014*

**Cwestiynau ymgynghori**

**11.** Pa mor briodol neu angenrheidiol fyddai ei gwneud hi'n ofynnol i brifysgolion a chorfforaethau addysg bellach ddarparu gwybodaeth i fyfyrwyr ynghylch ble i gael cyngor am reoli arian?

**12.** A fyddai unrhyw oblygiadau o ran statws (dosbarthiad) sefydliadau addysg uwch a phellach o gyflwyno gofyniad o'r fath?

## Cynigion yn ymwneud â swyddogaethau awdurdodau lleol

### *Cefndir*

Er bod gan awdurdodau lleol (yng nghyd-destun y ddogfen hon, mae hynny'n golygu cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru) y pŵer i wneud pethau a allai hyrwyddo neu wella lles economaidd cyffredinol eu hardal, nid oes dyletswydd benodol arnynt i hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Teimlaf y gallai gosod dyletswydd o'r fath arnynt – trwy ei gwneud yn ofynnol iddynt fabwysiadu strategaeth i hyrwyddo cynhwysiant ariannol – gynorthwyo i wella lles eu hardal a'u pobl yn y cyswllt hwn.

Yn nogfen Llywodraeth Cymru, Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru (2009), cafwyd cyfeiriad at bwysigrwydd awdurdodau lleol fel rhan o'r agenda cynhwysiant ariannol. Fodd bynnag, cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod darpariaeth yn y maes hwn yn anghyson o ardal i ardal:

> Mae gan awdurdodau lleol botensial i wneud cyfraniad enfawr at hyrwyddo cynhwysiant ariannol yng Nghymru. Bydd gan y mwyafrif ohonynt bolisïau eisoes ar waith i fynd i'r afael â'r elfennau amrywiol o allgau ariannol, fel cynorthwyo i ddatblygu undebau credyd lleol, gweithredu yn erbyn benthycwyr arian didrwydded a darparu cyngor ar fudd-daliadau lles a dyledion. Fodd bynnag, mae darpariaeth y gwasanaethau hyn yn amrywio ledled Cymru ac yn anghyson, sy'n golygu bod rhai ardaloedd yn cael mwy o fudd nag eraill.

Cafodd y pwnc hwn gryn sylw gan Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol yn 2010, fel rhan o'r ymchwiliad i Gynhwysiant Ariannol ac effaith Addysg Ariannol. O ran awdurdodau lleol, y prif faterion a godwyd yn y dystiolaeth yn ystod yr ymchwiliad oedd:

- Roedd diffyg cydlyniant wrth ddarparu gwasanaethau (fel gwasanaethau cynghori ariannol a chynghori ar ddyledion) ar lefel leol, a diffyg cydweithio;

- Awgrymodd nifer o dystion mai awdurdodau lleol, yn hytrach na'r llywodraeth ganolog, a ddylai fod yn bennaf cyfrifol am gydlynu darpariaeth addysg ariannol yn eu hardaloedd lleol;
- Cafwyd tystiolaeth o'r gwaith cadarnhaol y mae awdurdodau lleol eisoes yn ei wneud i hyrwyddo cynhwysiant ariannol, gan gynnwys trwy eu strategaethau lleol eu hunain;
- Roedd tystion eraill yn pryderu nad oedd awdurdodau lleol yn ymwneud yn ddigonol â'r gwaith o ddarparu addysg ariannol a materion yn gysylltiedig â chynhwysiant ariannol, a hynny gan nad oedd dyletswydd statudol arnynt i wneud hynny;
- Dywedodd tystion fod Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru (gweler uchod) yn cynnwys argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol, ond ei bod yn aneglur pa gamau oedd angen iddynt eu cymryd, a bod lle felly i roi mwy o arweiniad a chyfeiriad strategol iddynt;
- Dywedodd eraill bod Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru yn amserol, ond nad oedd grym statudol iddi, ac felly dibynnai ar ewyllys da ac ar ddwyn perswâd o du Llywodraeth Cymru;
- Dywedodd tystion bod awdurdodau, yn sgil absenoldeb cyfrifoldeb statudol mewn perthynas â chynhwysiant ariannol, yn ceisio cyplysu'r cysyniadau hynny gyda meysydd eraill lle'r oedd cyfrifoldebau cysylltiedig (e.e. yr agenda tlodi plant a'r agenda digartrefedd).

Dywedodd adroddiad y Pwyllgor iddo ystyried argymell fod Llywodraeth Cymru yn gosod dyletswydd statudol newydd ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag addysg a chynhwysiant ariannol. Fodd bynnag, yn y pen draw, credai'r Pwyllgor mai'r ffordd orau o roi sylw i'r materion hyn oedd drwy rai o'r cyfrifoldebau statudol presennol ar awdurdodau lleol – er enghraifft, ym meysydd tlodi plant, iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Gan hynny, galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i ymwneud mwy ag awdurdodau lleol er mwyn tynnu sylw at werth trawsbynciol mynd i'r afael ag addysg a chynhwysiant ariannol fel rhan o'r cyfrifoldebau statudol a oedd yn bodoli eisoes.

Yn fy marn i, nid yw hyn yn ddigon. Rhaid dwyn i gof hefyd y ffaith fod pethau wedi newid yn sylweddol ers 2010. Mae diwygio'r gyfundrefn les, y cynigion ar gyfer taliadau misol o dan y credyd cynhwysol, a thwf benthycwyr diwrnod cyflog i gyd wedi cyfrannu at newid y tirwedd ariannol sy'n rhan o fywydau pobl. Dyna pam y credaf y dylai fod gofyniad cyfreithiol bellach ar bob awdurdod lleol i hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Bydd gofyn

gwneud hynny trwy fabwysiadu strategaeth ar gynhwysiant ariannol, a honno'n amlinellu pa gamau penodol y mae'r awdurdod yn bwriadu'u cymryd i hyrwyddo cynhwysiant ariannol a llythrennedd ariannol pobl yr ardal. Er mwyn sicrhau cysondeb yn hyn o beth rhwng gwahanol awdurdodau, cynigiaf y dylai'r Bil ei hun restru rhai pethau penodol a ddylai gael sylw yn strategaeth pob awdurdod. Er enghraifft, gallai'r strategaeth gyfeirio at sut y bydd yr awdurdod yn ystyried materion sy'n ymwneud â chynhwysiant ariannol wrth reoleiddio masnachu stryd; o ran gwahardd galwadau diwahoddiad; wrth ymwneud â'r undebau credyd; ac wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag, hoffwn wahodd sylwadau am briodoldeb y dull hwn.

Yn olaf, o ran gwaith awdurdodau lleol, awgrymaf y gallai'r Bil ddeddfu er mwyn gwahardd llyfrgelloedd cyhoeddus rhag codi tâl ar bobl am ddefnyddio'r rhyngrwyd; a deddfu ynghylch y modd y mae awdurdodau lleol yn cyfeirio unigolion (gan gynnwys plant sydd wedi derbyn gofal) at wybodaeth am reoli arian.

### *Fy nghynigion i*

**Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) i hyrwyddo cynhwysiant ariannol drwy fabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol.**

Nod gyffredinol y strategaeth fyddai amlinellu'r camau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu'u cymryd er mwyn hyrwyddo cynhwysiant ariannol a llythrennedd ariannol yr unigolion sy'n byw yn eu hardaloedd, gan roi sail hefyd i awdurdodau ystyried materion yn ymwneud â chynhwysiant ariannol a llythrennedd ariannol wrth wneud penderfyniadau polisi ehangach.

**Cwestiynau ymgynghori**

**13.** Beth yw eich barn am ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol fabwysiadu strategaeth sy'n amlinellu sut y mae'n bwriadu hyrwyddo cynhwysiant ariannol a llythrennedd ariannol trigolion yr ardal?

**Ei gwneud yn ofynnol i strategaeth cynhwysiant ariannol pob awdurdod lleol nodi'r camau y mae'r awdurdod yn bwriadu'u cymryd mewn meysydd penodol er mwyn hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Er enghraifft, gallai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth ddangos sut y bydd awdurdodau'n gwneud y canlynol:**

- **sicrhau, o fewn y pwerau sydd ganddynt, eu bod yn cymryd camau rhagweithiol i ofalu bod masnachu stryd yn cael ei reoleiddio'n effeithiol;**

- **cymryd camau i wahardd 'galwadau diwahoddiad' yn eu hardal, i'r graddau y mae'r gyfraith yn eu galluogi i wneud hynny;**
- **ymwneud ag undebau credyd yn eu hardaloedd er mwyn annog trigolion i ddefnyddio'u gwasanaethau;**
- **hyrwyddo cynhwysiant ariannol trigolion yn eu hardaloedd wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.**

Nod cynnwys rhestr benodol yn y Bil yn nodi'r hyn y dylai bob strategaeth ei gynnwys fyddai sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cymryd camau cyson yn y meysydd lle mae'r angen mwyaf i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol.

Er enghraifft, mae modd i awdurdodau lleol ar hyn o bryd fabwysiadu pwerau o dan Atodlen 4 i *Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol)1982* er mwyn rheoleiddio masnachu stryd. Bu hefyd ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth y DU ar ddiwygio deddfwriaeth masnachu stryd Cymru a Lloegr, er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Chyfarwyddebau Ewropeaidd. Gallai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i strategaeth cynhwysiant ariannol pob awdurdod amlinellu sut yn union y mae'r awdurdod yn bwriadu defnyddio'r pwerau sydd ganddo yn y maes hwn mewn ffordd a fyddai'n gwella lles ariannol ei drigolion.

Yn yr un modd, o ran yr arfer y cyfeirir ato'n aml fel 'galw diwahoddiad' ('*cold calling*'), mae canllawiau gan y Swyddfa Masnachu Teg yn awgrymu nad oes gwaharddiad na chyfyngiad yn rhwystro awdurdodau lleol rhag sefydlu 'Parthau Dim Galwadau Diwahoddiad' ('*No Cold Calling Zones*'). Ardaloedd yw'r rhain lle mae'r gymuned leol yn datgan nad ydynt am gael masnachwyr yn galw yn eu cartrefi heb apwyntiad. Gall adran safonau masnach yr awdurdod lleol gefnogi'r rhain, a chredaf y gellid ei gwneud yn ofynnol i strategaeth cynhwysiant ariannol pob awdurdod lleol amlinellu'r camau y gallai'r awdurdod eu cymryd i weithio gyda thrigolion er mwyn sefydlu rhagor o'r parthau hyn.

O ran undebau credyd, credaf y gellid gwneud mwy i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau ymhlith y boblogaeth. Tra fy mod yn derbyn bod rhai ohonynt yn fwy llwyddiannus na'i gilydd, gallai'r strategaeth ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol amlinellu sut y bwriadant ymwneud â'u hundebau credyd mewn ffordd a fyddai o fudd i'w trigolion.

Pan fydd awdurdodau lleol yn prynu nwyddau neu wasanaethau, gallai'r strategaeth cynhwysiant ariannol amlinellu sut y byddant yn ystyried y cyfleoedd i hyrwyddo cynhwysiant a llythrennedd ariannol fel rhan o'r broses honno (o fewn cyfundrefn gyfreithiol y broses gaffael).

**Cwestiynau ymgynghori**

**14.** Beth yw eich barn am ei gwneud hi'n ofynnol i strategaeth cynhwysiant ariannol pob awdurdod lleol ddangos sut y mae'r awdurdod yn bwriadu:

- rheoleiddio masnachu stryd yn effeithiol;
- cymryd camau i wahardd galwadau diwahoddiad yn eu hardaloedd;
- ymwneud ag undebau credyd yn eu hardaloedd; a
- hyrwyddo cynhwysiant ariannol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau?

**15.** A oes rhagor o bethau y dylai'r strategaeth eu cynnwys o ran sut y mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo cynhwysiant a llythrennedd ariannol?

**Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi pa gamau a gymerwyd ganddynt i roi'r strategaeth ar waith ac i hyrwyddo cynhwysiant ariannol ymhlith eu trigolion.**

Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y camau a gymerwyd ganddynt i weithredu eu strategaeth cynhwysiant ariannol. Diben hyn fydd sicrhau bod camau gweithredu yn y strategaeth yn cael eu rhoi ar waith ac i roi gwybod i drigolion a rhanddeiliaid beth y mae pob awdurdod lleol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'i strategaeth.

**Cwestiynau ymgynghori**

**16.** Beth yw eich barn am ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut y maent wedi rhoi eu strategaeth cynhwysiant ariannol ar waith?

**17.** A ddylai'r Bil wneud unrhyw ddarpariaeth arall ynghylch y trefniadau monitro neu orfodi mewn perthynas â'r strategaeth cynhwysiant ariannol? Os hynny, sut fath o ddarpariaeth?

## Galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch sut y mae angen iddynt gydymffurfio â'r darpariaethau yn y Bil, gan gynnwys llunio a gweithredu strategaeth ar gynhwysiant ariannol.

### Cwestiynau ymgynghori

**18.** Beth yw eich barn am alluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch unrhyw agwedd o'r modd y maent yn cydymffurfio â'r darpariaethau yn y Bil (gan gynnwys llunio a gweithredu strategaeth ar gynhwysiant ariannol)?

## Gwahardd awdurdodau lleol rhag codi tâl am fynediad i'r rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd.

O dan *Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd 1964,* ni chaiff awdurdodau lleol godi tâl ar bobl am ddefnyddio cyfleusterau llyfrgell oni bai bod rheoliadau penodol wedi'u gwneud i ganiatáu hynny. Gwnaed Rheoliadau yn 1991 sy'n galluogi awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau penodol, ond nid yw'n ymddangos bod y rhain yn cynnwys codi tâl am unrhyw beth sy'n ymwneud yn benodol â'r rhyngrwyd. Fodd bynnag, er mwyn bod yn bendant ynghylch hyn, cynigiaf fod y Bil yn deddfu i gyflwyno cyfyngiad clir sy'n atal awdurdodau lleol yng Nghymru rhag codi tâl am fynediad i'r rhyngrwyd yn eu llyfrgelloedd.

O ran cynhwysiant a llythrennedd ariannol, mae rhesymau da dros wneud hyn. Er enghraifft, mae trefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer chwilio am swyddi ac o ran credyd cynhwysol yn golygu bod yn rhaid i bobl gael gafael ar wybodaeth ar-lein. Yn Lloegr, mae'n ymddangos bod rhai llyfrgelloedd wedi dechrau codi tâl am fynediad i'r rhyngrwyd. Byddai mynediad am ddim i'r rhyngrwyd ym mhob llyfrgell yng Nghymru yn rhoi gwasanaeth hanfodol i bobl sy'n agored i niwed ac i'r rheini sy'n chwilio am waith, ac rwyf yn awyddus i sicrhau bod hyn yn cael ei ddiogelu yn y dyfodol.

### Cwestiynau ymgynghori

**19.** A ddylai'r cyhoedd allu defnyddio cyfleusterau ar-lein mewn llyfrgelloedd heb orfod talu amdanynt, ac os felly, a yw'n angenrheidiol deddfu ar y mater hwn?

**20.** A ydych yn rhagweld y gallai unrhyw broblemau godi o wahardd llyfrgelloedd rhag codi tâl am ddefnyddio'r rhyngrwyd?

**21.** A oes achlysuron yn eich barn chi pan ellid cyfiawnhau codi tâl ar y cyhoedd am ddefnyddio cyfrifiaduron mewn llyfrgelloedd?

### Gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i roi cyngor ynghylch rheoli arian, dyled a gwasanaethau ariannol i bobl 16, 17 ac 18 oed yn eu hardal sydd wedi derbyn gofal.

Byddai'r gofyniad hwn yn adlewyrchu rôl awdurdodau lleol fel rhiant corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal ganddynt. Mae'n ymddangos yn rhesymegol ac yn rhesymol y dylai awdurdodau lleol barhau i gymryd diddordeb yn lles unigolion fu'n derbyn gofal ganddynt a bod rhoi cyngor ariannol pan ddônt yn oedolion a phan fyddant yn gorfod gwneud eu dewisiadau ariannol eu hunain yn rhan o hyn. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod oedolion ifanc sy'n agored i niwed yn meddu ar sgiliau ariannol digonol, yn enwedig lle gallai fod diffyg cymorth a chefnogaeth teulu i droi tuag ato.

**Cwestiynau ymgynghori**

**22.** Pa mor briodol neu angenrheidiol fyddai ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol roi cyngor penodol am reoli arian i'r rheini sydd wedi derbyn gofal?

### Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth yn nodi lle y gall unigolion gael cyngor ynglŷn â rheoli arian.

Yn aml, pobl sy'n ceisio cyngor gan awdurdodau lleol ar faterion fel tai, digartrefedd neu ddyled fydd hefyd angen cymorth fwyaf gyda llythrennedd ariannol a rheoli arian. Pan fydd unigolion yn ceisio cymorth gan awdurdod lleol ynghylch tai, digartrefedd neu ddyled, y bwriad yw rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gyfeirio'r unigolion hynny at wybodaeth am reoli arian yn ogystal. Gallai hefyd fod yn ofynnol i awdurdodau lleol roi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth hon ar eu gwefannau.

**Cwestiynau ymgynghori**

**23.** Pa mor briodol neu angenrheidiol fyddai ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol roi cyngor am reoli arian i unigolion sy'n ceisio cymorth gyda materion cysylltiedig eraill?

## Goblygiadau ariannol a sylwadau eraill

I gloi, byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych am unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'm cynigion, ynghyd ag unrhyw sylwadau eraill nad oedd modd eu rhoi yn ateb i'r cwestiynau ymgynghori blaenorol.

**Cwestiynau ymgynghori**

**24.** A ydych yn rhagweld unrhyw oblygiadau ariannol, o ran costau neu fanteision, i unrhyw sefydliadau neu bobl benodol mewn perthynas â'r cynigion yn y ddogfen hon? Os hynny, a allwch chi ddisgrifio a manylu ar y goblygiadau ariannol hyn?

**25.** A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech chi'u gwneud am fy nghynigion, nad oedd modd eu rhoi yn ateb i'r cwestiynau blaenorol?

## Sut i ymateb

Mae rhestr lawn o'r holl gwestiynau a ofynnwyd i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon. Croeso i chi ymateb i gyn lleied neu gynifer ohonynt ag y dymunwch, ac mae croeso hefyd i chi ychwanegu unrhyw sylwadau eraill sy'n berthnasol yn eich barn chi.

Dylid anfon yr ymatebion erbyn **28 Ebrill 2014** a hynny i legislation@wales.gov.uk.

Neu mae modd eu hanfon drwy'r post at:

Gareth Williams
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 029 2089 8008

Er mwyn helpu i ysgogi trafodaeth ar y materion sy'n cael sylw yn yr ymgynghoriad hwn, ac er mwyn bod yn agored, yr arferiad fel rheol yw cyhoeddi'r ymatebion, a hynny ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Felly, os hoffech i'ch ymateb neu unrhyw ran ohono fod yn ddienw neu'n gyfrinachol, nodwch hynny'n glir ynghyd â'ch rhesymau am hyn.

Ar adegau, efallai y bydd gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol ryddhau gwybodaeth y mae wedi'i derbyn yn unol â *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.* Os caiff eich ymateb ei dderbyn fel un dienw neu gyfrinachol, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau nad yw'r cynnwys yn golygu y bydd modd eich adnabod.

Os byddwch chi'n tybio y gallai'ch ymateb godi unrhyw broblemau o ran diogelu data neu ryddid gwybodaeth, gallwch drafod hyn cyn cyflwyno'ch sylwadau drwy gysylltu â Gareth Williams, Clerc Deddfwriaeth. Y rhif ffôn yw 029 2089 8008.

## Y camau nesaf

Ar ôl i mi gnoi cil dros yr hyn fydd pobl wedi'i ddweud wrthyf yn ystod y broses ymgynghori hon, byddaf yn mynd ati i lunio cynnwys terfynol y Bil y byddaf yn ei gyflwyno gerbron y Cynulliad cyn 15 Gorffennaf 2014. Yn cyd-fynd â'r Bil bydd Memorandwm Esboniadol ac Arfarniad Effaith Rheoleiddiol, a'r rheini'n rhoi mwy o wybodaeth am y newidiadau y bydd y Bil yn eu gwneud pe bai'n dod yn gyfraith.

Unwaith y bydd y Bil wedi'i gyflwyno, bydd proses yn mynd rhagddi lle bydd gwaith craffu trylwyr yn cael ei wneud yn y Cynulliad, a bydd cyfle hefyd i bawb sydd â diddordeb yn y Bil gyflwyno rhagor o sylwadau am ei gynnwys.

Mae pedair rhan i'r broses graffu, lle bydd y Bil yn cael sylw Pwyllgor(au) perthnasol ac yn destun gwelliannau yn y Pwyllgor a Chyfarfod Llawn y Cynulliad. Rwy'n gobeithio y bydd fy nghynigion yn dod yn gyfraith rywdro'r flwyddyn nesaf (2015). Erbyn hynny, gobeithio y bydd mwy o gymorth ar gael i bobl Cymru fod yn llythrennog yn ariannol ac i wneud y dewisiadau ariannol gorau i'w hunain a'u cymunedau.

## Rhestr o'r holl gwestiynau ymgynghori

Mae croeso i chi ymateb i gyn lleied neu gynifer o'r cwestiynau ymgynghori ag y dymunwch.

**Y cwestiynau ymgynghori**

1. Beth yw eich barn am wneud addysg ariannol yn rhan statudol o'r cwricwlwm (o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen), yn debyg i addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac addysg gysylltiedig â gwaith?
2. I ba raddau y dylid rhoi mwy o sylw i addysg ariannol mewn ysgolion er mwyn paratoi pobl ifanc yn well at yr her o wneud penderfyniadau ariannol ar ôl gadael yr ysgol?
3. Ym mha ffyrdd, ac i ba raddau, y mae materion ariannol yn berthnasol i'r hyn y dylai pobl ifanc fod yn ei ddysgu yn yr ysgol?
4. Os daw addysg ariannol yn rhan statudol o'r cwricwlwm, a ddylid rhoi hyblygrwydd i ysgolion wrth iddynt ddilyn canllawiau ar sut i ddarparu'r addysg honno? (Byddai hyn yn debyg i'r modd y mae ABCh ac addysg gysylltiedig â gwaith yn cael eu haddysgu, ond yn wahanol i bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol.)
5. Beth yw eich barn am roi dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau addysg lleol i ddarparu addysg ariannol yn ystod addysg orfodol o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen?
6. Beth yw eich barn am osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei darparu ar sail drawsgwricwlaidd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a'i gwneud yn ofynnol iddynt ystyried hyn fel rhan o unrhyw adolygiadau o'r cwricwlwm?

7. Beth yw eich barn am ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori'n ffurfiol â rhanddeiliaid ac arbenigwyr perthnasol wrth ddatblygu cynnwys y cwricwlwm addysg ariannol?

8. Gyda pha bobl a sefydliadau y dylid ymgynghori?

9. Beth yw eich barn am roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu cynnydd addysg ariannol mewn ysgolion, ac i lunio adroddiad blynyddol ar hyn?

10. Beth yw'ch barn am sut y dylai'r ddyletswydd hon gael ei chyflawni? Er enghraifft, a ddylai hyn fod yn rhan o waith Estyn wrth arolygu ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yng Nghymru?

11. Pa mor briodol neu angenrheidiol fyddai ei gwneud hi'n ofynnol i brifysgolion a chorfforaethau addysg bellach ddarparu gwybodaeth i fyfyrwyr ynghylch ble i gael cyngor am reoli arian?

12. A fyddai unrhyw oblygiadau o ran statws (dosbarthiad) sefydliadau addysg uwch a phellach o gyflwyno gofyniad o'r fath?

13. Beth yw eich barn am ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol fabwysiadu strategaeth sy'n amlinellu sut y mae'n bwriadu hyrwyddo cynhwysiant ariannol a llythrennedd ariannol trigolion yr ardal?

14. Beth yw eich barn am ei gwneud hi'n ofynnol i strategaeth cynhwysiant ariannol pob awdurdod lleol ddangos sut y mae'r awdurdod yn bwriadu:

    - rheoleiddio masnachu stryd yn effeithiol;
    - cymryd camau i wahardd galwadau diwahoddiad yn eu hardaloedd;
    - ymwneud ag undebau credyd yn eu hardaloedd; a
    - hyrwyddo cynhwysiant ariannol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau?

15. A oes rhagor o bethau y dylai'r strategaeth eu cynnwys o ran sut y mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo cynhwysiant a llythrennedd ariannol?

16. Beth yw eich barn am ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut y maent wedi rhoi eu strategaeth cynhwysiant ariannol ar waith?

17. A ddylai'r Bil wneud unrhyw ddarpariaeth arall ynghylch y trefniadau monitro neu orfodi mewn perthynas â'r strategaeth cynhwysiant ariannol? Os hynny, sut fath o ddarpariaeth?

18. Beth yw eich barn am alluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch unrhyw agwedd o'r modd y maent yn cydymffurfio â'r darpariaethau yn y Bil (gan gynnwys llunio a gweithredu strategaeth ar gynhwysiant ariannol)?

19. A ddylai'r cyhoedd allu defnyddio cyfleusterau ar-lein mewn llyfrgelloedd heb orfod talu amdanynt, ac os felly, a yw'n angenrheidiol deddfu ar y mater hwn?

20. A ydych yn rhagweld y gallai unrhyw broblemau godi o wahardd llyfrgelloedd rhag codi tâl am ddefnyddio'r rhyngrwyd?

21. A oes achlysuron yn eich barn chi pan ellid cyfiawnhau codi tâl ar y cyhoedd am ddefnyddio cyfrifiaduron mewn llyfrgelloedd?

22. Pa mor briodol neu angenrheidiol fyddai ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol roi cyngor penodol am reoli arian i'r rheini sydd wedi derbyn gofal?

23. Pa mor briodol neu angenrheidiol fyddai ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol roi cyngor am reoli arian i unigolion sy'n ceisio cymorth gyda materion cysylltiedig eraill?

24. A ydych yn rhagweld unrhyw oblygiadau ariannol, o ran costau neu fanteision, i unrhyw sefydliadau neu bobl benodol mewn perthynas â'r cynigion yn y ddogfen hon? Os hynny, a allwch chi ddisgrifio a manylu ar y goblygiadau ariannol hyn?

25. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech chi'u gwneud am fy nghynigion, nad oedd modd eu rhoi yn ateb i'r cwestiynau blaenorol?